# Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin Alltcafan**

**Cylch Meithrin Alltcafan**
**Ysgol Bryn Saron**
**Saron, Llandysul**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA44 5EB**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

27/02/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cylch Meithrin Alltcafan

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Cylch Meithrin Alltcafan |
| Lleoedd cofrestredig | 18 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 6 Mehefin 2023 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Digonol** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Gwael** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Digonol** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb


Ar y cyfan, mae'r plant yn hapus, wedi setlo ac yn teimlo'n ddiogel yn y lleoliad. Mae ganddynt lais cryf ac maent yn teimlo bod eu hanghenion a'u dewisiadau yn cael eu hystyried a'u parchu gan y staff presennol. Mae'r plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol. Mae'r plant yn mwynhau eu cyfleoedd chwarae a dysgu. Mae'r plant yn meithrin rhai sgiliau annibyniaeth.

Mae'r mwyafrif o'r staff yn ymwybodol o'r polisïau a'r gweithdrefnau ar gyfer cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Fodd bynnag, mae hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth ar waith mewn perthynas â'r gweithdrefnau diogelu. Mae'r rhan fwyaf o'r staff yn rheoli'r rhyngweithio yn dda. Fodd bynnag, gwnaed argymhelliad mewn perthynas â strategaethau ymddygiad cadarnhaol. Mae'r staff yn hyrwyddo'r Gymraeg a holl anghenion datblygiadol y plant yn unol â'u hoedran a'u camau datblygu.

Mae'r arweinwyr yn darparu amgylchedd glân a diogel â digon o le. Maent yn sicrhau bod yr ardaloedd chwarae yn groesawgar ac yn gyfeillgar ac yn darparu amrywiaeth o adnoddau o ansawdd da i'r plant. Mae gan y lleoliad amgylchedd hygyrch dan do ac yn yr awyr agored i'r plant.

Mae gan yr arweinwyr weledigaeth addas ar gyfer y lleoliad ac maent yn cynnal gwaith hunanwerthuso parhaus. Mae'r partneriaethau â'r rhieni yn gadarn ac mae'r cofnodion yn rhan greiddiol o'r broses. Fodd bynnag, mae achos o ddiffyg cydymffurfio mewn perthynas â gwiriadau addasrwydd y staff.

| Llesiant | Digonol |
|---|---|

Ar y cyfan, mae'r plant yn hapus, wedi setlo ac yn teimlo'n ddiogel yn y lleoliad. Maent yn cyrraedd y lleoliad yn ddigynnwrf ac mae ganddynt gydberthynas gadarn â'r rhai sy'n rhedeg y lleoliad. Maent yn cofleidio aelodau o'r staff ac yn gwenu arnynt ac yn cyffroi wrth iddynt weld eu ffrindiau yn cyrraedd y drws. Mae'r plant yn hyderus yn eu hamgylchedd. Er enghraifft, maent yn helpu eu hunain yn frwdfrydig i'r teganau sydd o ddiddordeb iddynt ac yn symud o un gweithgaredd i'r llall yn hyderus. Mae gan y plant gysylltiadau agos ag aelodau o staff sy'n gyfarwydd iddynt.

Yn gyffredinol, mae gan y plant lais addas. Maent yn gwybod y caiff eu hanghenion a'u dewisiadau eu hystyried ac maent yn teimlo bod y staff yn eu parchu. Er enghraifft, gofynnodd y plant a allent wylio ‘clap clap, un dau tri’ ar y bwrdd gwyn rhyngweithiol, ac ymatebodd y staff i'w cais. Mae'r plant yn ddigon hapus wrth ddewis ble yr hoffent eistedd yn ystod amser byrbryd ac o ganlyniad, maent yn rhyngweithio'n gyfforddus â'u ffrindiau. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn cymryd rhan lawn yn ystod amser cylch a chaiff y plant nad ydynt yn barod i ganolbwyntio ar y gweithgareddau eu parchu, a gadewir iddynt symud o gwmpas yn rhydd.

Mae'r plant yn rhyngweithio mewn ffordd gadarnhaol. Maent yn chwarae ochr yn ochr â'i gilydd yn hwylus, ac yn gwenu wrth i'r staff eu canmol am rowlio'r bêl yn llwyddiannus. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn gwrando ar gyfarwyddiadau i beidio â dringo neu redeg rhag ofn iddynt gael eu brifo. Mae'r plant yn dangos parch tuag at y staff drwy ddweud “*Thank you!*” a “*Diolch/Dim diolch*” wrth gael eu llaeth a'u byrbryd. Mae'r plant yn dangos empathi tuag at ei gilydd. Er enghraifft, drwy gofleidio ei gilydd os oeddent wedi brifo wrth chwarae gyda thegan gan ddweud, “*It’s ok.*”

Mae'r plant yn mwynhau eu cyfleoedd chwarae a dysgu. Maent yn ddysgwyr chwilfrydig. Er enghraifft, roeddent yn chwarae â chwyddwydr a blwch golau gan ddangos diddordeb a chwilfrydedd wrth edrych ar luniau ac adnoddau naturiol. Mae'r plant yn dilyn eu diddordebau eu hunain yn llwyddiannus. Maent yn helpu eu hunain i flociau adeiladu, adnoddau paentio ac adnoddau chwarae rôl. Mae'r plant yn cydweithredu'n dda wrth chwarae. Maent yn chwarae rôl dynion tân a swyddogion yr heddlu, gan esgus eu bod yn diffodd tanau. Mae'r plant yn mwynhau'r amgylchedd chwarae awyr agored ac yn helpu eu hunain i adnoddau'r gegin fwd yn llwyddiannus. Maent yn gwenu wrth iddynt gymryd rhan mewn sesiynau canu ac yn frwdfrydig iawn wrth ganu'r gân ‘Troi ein dwylo’.

Mae'r plant yn meithrin rhai sgiliau annibyniaeth. Maent yn cymryd rhan mewn gweithgaredd hunangofrestru, gan osod eu henw ar y wal a chydnabod eu teimladau. Mae'r plant yn meithrin sgiliau corfforol drwy ddal a thaflu pêl ac yn dechrau adnabod lliwiau ac enwau anifeiliaid drwy chwarae. Maent yn gyfarwydd â'r drefn o ddydd i ddydd, fel mynd i'r toiled, tacluso a golchi eu dwylo. Yn ystod amser byrbryd, mae'r plant yn cael rhai cyfleoedd i fod yn annibynnol drwy ddewis y bwydydd iach sy'n well ganddynt.

| **Gofal a Datblygiad** | **Gwael** |
|---|---|

Mae'r mwyafrif o'r staff yn ymwybodol o'r polisïau a'r gweithdrefnau ar gyfer cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae'r staff yn darparu dewisiadau iach i'r plant, gan gynnwys ffrwythau, tost, llaeth a dŵr. Maent yn casglu gwybodaeth am ddewisiadau, anoddefiadau ac anghenion deietegol y plant ac yn gweithredu ar y wybodaeth hon yn effeithiol. Caiff digwyddiadau a damweiniau eu cofnodi; fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn cael eu cofnodi mewn modd amserol. Mae gweithdrefnau ar waith i gofnodi anafiadau sy'n bodoli eisoes a chedwir cofnodion meddyginiaeth. Mae'r rhan fwyaf o'r staff sy'n bresennol yn gwbl ymwybodol o'r polisïau a'r gweithdrefnau ac yn eu rhoi ar waith yn y lleoliad y rhan fwyaf o'r amser. Ar un achlysur, gadawyd aelod o'r staff ar ei ben ei hun gyda'r plant yn yr ystafell. Nid yw'r swyddog diogelu dynodedig bob amser yn gweithredu'r polisi diogelu yn effeithiol. O ganlyniad, ar un achlysur, ni chymerodd y swyddog diogelu dynodedig gamau gweithredu priodol mewn modd amserol mewn perthynas â mater diogelu. Mae hyn yn peri risg i iechyd a llesiant bobl, ac felly rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth.

Yn ystod yr arolygiad, llwyddodd y staff i sicrhau eu bod yn goruchwylio'r plant yn dda. Fodd bynnag, nid yw'r staff bob amser yn sicrhau bod dau aelod o staff yn yr ystafell i oruchwylio'r plant ac mae hyn yn cael effaith negyddol ar y plant.

Yn gyffredinol, mae'r staff yn rheoli'r rhyngweithio mewn ffordd effeithiol. Mae ganddynt gydberthnasau cynnes ac agos â'r plant, ac maent yn deall anghenion y plant ac yn gweithredu arnynt yn unol â'u hoedran a'u camau datblygu. Mae'r staff yn canmol ac yn annog y plant ac yn rhoi ymdeimlad o gyflawniad iddynt wrth iddynt ddangos gwaith paentio da. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar lesiant y plant. Mae'r staff yn fodelau rôl da gan eu bod yn annog y plant yn gyson i ddweud '*please*' a '*thank you'*. Mae'r staff yn dangos empathi tuag at blant sy'n gollwng eu llaeth ar y llawr ar ddamwain, gan ddweud, "*that's ok, that was only an accident*." Fodd bynnag, nid yw pob aelod o'r staff yn dilyn nac yn gweithredu'r polisïau a'r strategaethau rheoli ymddygiad cadarnhaol.

Mae'r staff yn gweithredu'r cynnig ar gyfer y Gymraeg yn llawn i'r plant sy'n mynychu'r lleoliad ac maent yn sicrhau proses bontio hwylus rhwng defnyddio iaith y cartref a chyflwyno geirfa Gymraeg i'r plant. Mae'r staff yn gwella datblygiad y plant o ran y Gymraeg drwy ddarllen straeon, canu, amser cylch a thrafodaethau wrth chwarae. Mae gan y rhai sy'n rhedeg y lleoliad o ddydd i ddydd ddealltwriaeth dda o anghenion dysgu ychwanegol ac maent yn gwybod sut i godi unrhyw bryderon datblygiadol. Maent yn defnyddio gwaith cynllunio 'yn y foment' gan ddilyn diddordebau a syniadau'r plant ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'u camau datblygiadol nesaf.

## Yr Amgylchedd — Da

Mae gan yr arweinwyr fesurau effeithiol ar waith i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel. Maent yn sicrhau bod pob drws a giât yn ddiogel a chedwir cofnod o ymwelwyr â'r lleoliad. Mae'r arweinwyr yn trefnu gweithdrefnau glanhau cyson sy'n adlewyrchu arferion hylendid da. Mae ganddynt arferion atal a rheoli heintiau priodol ar waith sy'n llwyddo i leihau'r risgiau i iechyd a diogelwch y plant i'r eithaf. Mae'r arweinwyr yn cynnal gwiriadau dyddiol ac asesiadau risg a gaiff eu hadolygu'n rheolaidd a'u diweddaru'n effeithiol. Caiff gwiriadau cynnal a chadw ar yr adeilad a gwiriadau diogelwch tân eu cynnal yn rheolaidd. Mae'r arweinwyr yn cynnal ymarferion tân rheolaidd ac yn eu cofnodi.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr adeilad yn gynnes, yn groesawgar ac yn hygyrch i bawb. Mae'r arweinwyr yn gwneud defnydd effeithiol o'r ardaloedd dan do a'r ardaloedd awyr agored. Maent yn trefnu'r dodrefn a'r adnoddau yn unol ag anghenion y plant, gan eu galluogi i ddatblygu rhywfaint o annibyniaeth ond gan ar yr un pryd ddiwallu eu hanghenion personol ac ystyried eu dewisiadau chwarae. Mae'r lleoliad yn gweithredu o fewn ysgol gynradd Gymraeg. Mae digon o le yn y brif ystafell chwarae ac mae'n cynnwys sawl ardal ddiddorol i'r plant fod yn greadigol ac yn gymdeithasol ac i ddatblygu eu chwilfrydedd. Mae'r arweinwyr wedi trefnu'r ardaloedd yn bwrpasol ac ar adegau, gall y plant symud yn rhydd rhwng yr ardal dan do a'r ardal awyr agored. Mae'r ardal awyr agored yn fawr ac yn cynnig llawer o gyfleoedd i'r plant ymgymryd â gweithgareddau chwarae ac archwilio corfforol. Mae'r amgylchedd yn hyrwyddo ymdeimlad o berthyn y plant a chaiff eu gwaith creadigol ei arddangos yn llawn balchder o amgylch yr ystafell. Mae'r toiledau yn hygyrch ac yn diwallu anghenion y plant o ran preifatrwydd ac urddas.

Mae'r arweinwyr yn trefnu adnoddau o ansawdd da yn effeithiol. Yn yr ardal dan do, mae cyfleoedd i'r plant ddefnyddio blychau o becynnau adeiladu, ardal chwarae rôl cegin, cornel llyfrau Cymraeg, adnoddau synhwyraidd a blwch golau mewn ardal lle ceir goleuadau synhwyraidd isel. Mae amrywiaeth o weithgareddau bwrdd a gemau Cymraeg y gall y plant gael gafael arnynt pan fyddant am wneud hynny, yn ogystal ag adnoddau digidol Cymraeg sydd ar gael yn hawdd i'r plant. Mae'r adnoddau chwarae rôl yn cynnwys llawer o adnoddau sy'n gwella creadigrwydd y plant ac yn meithrin eu sgiliau cymdeithasol ac ieithyddol. Yn yr awyr agored, mae'r arweinwyr yn sicrhau bod ardaloedd i'r plant fod yn greadigol ac i archwilio, sy'n cynnwys cegin fwd ag offer coginio, ardaloedd gwneud marciau, adnoddau chwarae corfforol, blociau adeiladu ac ardal chwarae gyda thywod. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod amrywiaeth dda o lyfrau ac adnoddau ar gael sy'n meithrin gwybodaeth y plant am ddiwylliannau gwahanol ac amrywiaeth, a'u dealltwriaeth o hynny.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Digonol

Mae'r arweinwyr yn rhagweithiol ac mae ganddynt weledigaeth gadarnhaol ar gyfer y lleoliad. Mae'r datganiad o ddiben yn adlewyrchiad addas o'r lleoliad ac yn bodloni'r gofynion. Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau yn cael eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd. Fodd bynnag, nid yw'r arweinwyr bob amser yn sicrhau bod y staff yn gallu dilyn y polisïau a'r gweithdrefnau yn effeithiol.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr holl gofnodion gofynnol ar waith, gan gynnwys cofnodion ar bresenoldeb y staff a'r plant, contractau a dogfennau caniatâd. Mae'r yswiriant atebolrwydd cyhoeddus yn gyfredol ac yn ddilys.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod gan bob aelod o'r staff wiriadau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a'u bod yn cael eu diweddaru. Cwblhawyd gwiriadau addasrwydd ar gyfer yr aelodau o staff sydd wedi'u cyflogi ar hyn o bryd, gan fodloni'r gofynion. Fodd bynnag, nid oedd y gwiriadau addasrwydd llawn ar gyfer aelod newydd o staff sy'n gweithio yn y lleoliad ar gael i ni eu gweld, gan na ofynnwyd amdanynt cyn i'r aelod o staff ddechrau gweithio yno. Felly, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu. Mae sesiynau sefydlu ar gyfer aelodau newydd o staff yn cael eu cynnal, a chynhelir sesiynau goruchwylio ac arfarniadau yn rheolaidd. Mae'r staff yn hapus yn eu rolau ac maent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan yr arweinwyr sy'n darparu cyfleoedd hyfforddiant a chymorth bugeiliol ac yn cynnal cyfarfodydd staff rheolaidd. Mae'r staff yn ymgymryd â hyfforddiant gorfodol, ac maent yn gymwysedig ac yn brofiadol yn eu rolau.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y trefniadau hunanwerthuso yn bwrpasol ac yn effeithiol. Maent yn gofyn i'r plant, eu rhieni, y staff a sefydliadau eraill am eu barn, sylwadau ac awgrymiadau er mwyn creu targedau ac ysgogi gwelliannau ar gyfer rhedeg y lleoliad yn y dyfodol.

Mae'r arweinwyr yn ymgysylltu'n effeithiol ag Arolygiaeth Gofal Cymru am ddigwyddiadau o bwys a newidiadau yn y lleoliad. Maent wedi cwblhau'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth ar gyfer y lleoliad mewn modd amserol.

Mae'r partneriaethau yn gadarn. Mae'r rhieni yn hapus iawn gyda'r arweinwyr. Maent o'r farn bod eu plant wedi gwneud cynnydd da yn y lleoliad ac yn teimlo eu bod yn hapus yno ar y cyfan. Rhennir gwybodaeth am y lleoliad â'r rhieni drwy ap Webform a chaiff llythyrau eu hanfon at y rhieni bob tymor am deithiau, digwyddiadau a chyfleoedd codi arian. Mae'r arweinwyr wedi trefnu teithiau i'r ardal leol. Mae partneriaeth gadarn rhwng y lleoliad a'r ysgol. Maent yn dod at ei gilydd ar gyfer gweithgareddau chwaraeon ac mae athro'r dosbarth derbyn yn ymgysylltu'n dda â'r lleoliad er mwyn sicrhau cyfnod pontio effeithiol i'r plant.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 20 | Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol sicrhau bod y Swyddog Diogelu Dynodedig yn gweithredu'r polisi diogelu yn gywir er mwyn diogelu'r plant a sicrhau bod pob aelod o'r staff yn gwbl ymwybodol o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelu plant. | Newydd |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 28 | Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol sicrhau y caiff yr holl wiriadau addasrwydd eu cwblhau mewn modd amserol ar gyfer pob aelod o'r staff a'r gwirfoddolwyr sy'n gweithio gyda'r plant ac sy'n gofalu amdanynt. | Newydd |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| **Safonau Gofynnol Cenedlaethol** | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 15 - Cymarebau staffio | Sicrhau bod dau aelod o staff yn goruchwylio'r plant bob amser |
| Safon 9 - Ymddygiad | Sicrhau bod pob aelod o'r staff yn rhoi strategaethau rheoli ymddygiad cadarnhaol ar waith |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 13/05/2024